Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Grŵp Cynhyrchwyr: AGROCEL

Agrocel, yr India, Reis

Photos: Traidcraft/Shailan Parker

Agrocel

Mae Agrocel Cymdeithas Tyfwyr Pure and Fair Rice yn helpu ffermwyr yn Haryana, yr India i dyfu reis Basmati yn well a bod o fudd i'w cymunedau lleol. Mae Agrocel hefyd yn cyflenwi reis, cotwm, grawnwin a chnau. Mae'n anelu at wella incwm ffermwyr a'u helpu i farchnata eu cynnyrch wrth iddyn nhw ddatblygu ymarferion amaethyddol cynaliadwy. Mae'r rhoi cyngor a chyflenwadau amaethyddol a lle i ffermwyr brynu cnydau.

Masnach Deg: Byd o wahaniaeth

Proffil Grŵp Cynhyrchwyr: AGROCEL

Agrocel, yr India, Reis

"Rwy'n cael gwell pris oddi wrth Agrocel ac, wrth gwrs, gynted ag rwy'n dechrau ennill mwy o arian, mae fy nheulu'n dechrau bwyta'n dda ac rwy'n canfod ffyrdd eraill o wario arian hefyd. Er enghraifft, pe na byddai gen i ddigon o arian, mi fyddai'n rhaid i'm plant fynd i ysgol y llywodraeth ond nawr rwy'n gallu eu hanfon i ysgol breifat. Maen nhw'n cael gwell addysg." **Dhaman Ram, ffermwr reis, Agrocel, yr India**

Yn y DU, mae system dda o addysg yn cael ei hariannu gan y llywodraeth. Nid yw hynny'n wir yn yr India ble, yn aml iawn, ychydig iawn o arian y mae ysgolion y llywodraeth yn ei gael. Yn aml mae ganddyn nhw ddosbarthiadau mawr iawn a ddim llawer o lyfrau nac adnoddau eraill gan ei gwneud yn anodd iawn i ddysgu. Mae llawer o rieni felly, yn ceisio anfon eu plant i ysgolion preifat os yn bosibl.

Un o ddau bwmp llaw a brynwyd gyda phremiwm Masnach Deg i ddarparu dŵr ffres i weithwyr fferm yn Harinagar, ble mae tua 75 o deuluoedd yn byw.

Mae Agrocel yn dweud ar ei gwefan mai un o'i egwyddorion craidd yw 'manteisio ar sefyllfaoedd anodd'. Mae Masnach Deg yn cefnogi'r sefydliad a'i ffermwyr i wneud hynny.

Mae gan Agrocel gysylltiadau gyda nifer o sefydliadau ymchwil a Sefydliadau Anllywodraethol sydd â rhan mewn gwaith rheoli dŵr a mentrau tebyg eraill. Gyda chefnogaeth Masnach Deg gallodd Agrocel allforio i farchnadoedd Masnach Deg, sydd erbyn hyn yn cyfrif am ran allweddol o'i gwerthiant.